Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru

## Yr hyn rydym wedi'i wneud ers cyhoeddi'r Ffeithlun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar diwethaf ym mis Mehefin 2025






# Cyflwyniad

Ar 15 Mawrth 2024, cyhoeddwyd ein Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru (y Cynllun), gan ddwyn ynghyd ein holl bolisïau a'n holl raglenni cysylltiedig o bob rhan o Lywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun yn gosod y plentyn a'i ddatblygiad wrth wraidd popeth a wnawn, a chafodd ei ddatblygu o amgylch tair thema: ansawdd y ddarpariaeth, mynediad at ddarpariaeth, a chefnogi a datblygu'r gweithlu. Trwy ganolbwyntio ar y themâu hyn, mae'r Cynllun yn cefnogi datblygu a darparu cyfleoedd addysg a gofal plant seiliedig ar chwarae sy'n gynhwysol ac yn uchel eu hansawdd i bob baban a phlentyn bach 0-5 oed.

Mae'r tudalennau nesaf yn nodi'r hyn rydym wedi'i wneud ers cyhoeddi'r ffeithlun diwethaf ar gyfer y Cynllun ym mis Mehefin 2025 a dyma'r ffeithlun olaf, ar ôl cyflawni ein hymrwymiad i lunio un yn flynyddol ar ôl cyhoeddi'r Cynllun i ddechrau.

## Neges gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol

Mae wedi bod yn fraint cyd-arwain ein dull o weithredu Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru, gan roi'r plentyn a'i anghenion datblygiadol wrth wraidd ein gwaith polisi a chyflawni. Rydym yn cydnabod bod rhagor i'w wneud bob amser. Er hynny, mae'n braf gweld y cynnydd a wnaed yn erbyn y camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ers iddo gael ei gyhoeddi yn 2024. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o ran gwella ansawdd a hygyrchedd y ddarpariaeth, yn ogystal â chefnogaeth barhaus i'r gweithlu gofal plant, gwaith chwarae ac addysg feithrin.






© Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54032

# Yr hyn rydym wedi parhau i'w wneud:

Darparu Dechrau'n Deg
Fe wnaeth 40,943 o blant elwa ar wasanaethau Dechrau'n Deg yn 2024-2025.

Darparu Cynnig Gofal Plant Cymru
Mae'r galw yn cynyddu, gan gyrraedd 36% o'r holl blant bach 3 a 4 oed yng Nghymru yn 2024-25, yr uchaf erioed.

Cyflawni'r gwaith o ehangu Gofal Plant Dechrau'n Deg i blant dyflwydd oed yng Nghymru.

Cyflwyno'r Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae i gefnogi'r mynediad hollbwysig i gyfleoedd chwarae gyda bwyd/byrbrydau iach i blant.

Yn ystod gwyliau'r gwanwyn a'r haf yn 2025, fe wnaeth 63,173 o blant elwa ar gyfleoedd chwarae ychwanegol.

Ariannu Mudiad Meithrin i gyflwyno'r rhaglen Sefydlu a Symud.

Mae'r rhaglen wedi creu neu ehangu 101 o leoliadau, gydag 11 arall wrthi'n cael eu datblygu.

Buddsoddi mewn recriwtio a chadw swyddogion ymgysylltu â theuluoedd ledled Cymru.



Cyflwyno'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf sy'n darparu cymorth cynnar hanfodol a chymorth ataliol i fabanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd.

Darparu addysg feithrin ran-amser i blant bach 3 a 4 oed.

Darparu Grant Datblygu Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar.

Ariannu Cwlwm i gynyddu argaeledd gwasanaethau gofal plant a gwaith chwarae cofrestredig hygyrch, fforddiadwy a hyblyg o ansawdd uchel.

Ariannu'r gwasanaeth Cyswllt Rhieni Cymru.

Cynnig cinio maethlon am ddim i bob dysgwr ysgol gynradd.

Dros 64 miliwn o brydau wedi'u gweini ers y lansiad ym mis Medi 2022.

Ariannu Chwarae Cymru i hyrwyddo gwerth chwarae a chefnogi'r gwaith o fwrw ymlaen â chamau gweithredu yn dilyn argymhellion yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae.

# Yr hyn rydym wedi parhau i'w wneud

Ariannu Plant yng Nghymru i gynnal y Rhwydwaith Hawliau Plant yn y Blynyddoedd Cynnar a'r Grŵp Gweithredu Blynyddoedd Cynnar.

Hyrwyddo'r defnydd o fframwaith NYTH a'r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy.

Cefnogi teuluoedd Cymraeg a di-Gymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cartref.

Hyrwyddo ymgyrch Plentyndod Chwareus Cymru.

Ariannu Gofal Cymdeithasol Cymru sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu gweithlu'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru.



Ariannu Plant yng Nghymru i ddarparu hyfforddiant Hawliau Plant yn y Blynyddoedd Cynnar.

Bwrw ymlaen â chamau gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a chefnogi gweithlu gofal plant mwy amrywiol.

Darparu cyllid cyfalaf (£5m) i awdurdodau lleol yn 2025-2026 i wella ansawdd mannau chwarae a meysydd chwarae, gan greu cyfleoedd chwarae hygyrch.

Codi ymwybyddiaeth o'r gyfraith o dan Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020.

Hyrwyddo gwaith y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol, y Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth a'r Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth.

# Yr hyn rydym wedi'i wneud i gefnogi mynediad at ddarpariaeth

Darparu cynnydd o 28% yng nghyfradd fesul awr y Cynnig Gofal Plant a delir i leoliadau gofal plant ar gyfer 2025-26, symud i adolygiadau blynyddol o'r gyfradd a pharhau i gysoni'r cyllid hwn ar gyfer addysg feithrin mewn lleoliadau.

Cefnogi teuluoedd drwy'r rhaglen Cymraeg i Blant.

Cynhaliwyd 2,211 o sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein ychwanegol, gyda 16,748 o blant a 16,716 o oedolion yn bresennol.

Hyrwyddodd swyddogion prosiect y rhaglen mewn digwyddiadau lle roedd 1147 o rieni a 1231 o blant yn bresennol. Drwy 17 o sesiynau Mentrau Iaith ymgysylltwyd â 658 o rieni a 681 o blant.

Daeth Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2026 i rym ar 11 Mawrth 2026.

Cyhoeddi Adroddiad Cynnydd ar y Strategaeth Tlodi Plant.




Cyhoeddi Ymchwil Ansoddol Teuluoedd yn Gyntaf.

Lansio tudalen we Cael help i dalu am ofal plant.

Lansio Pecyn Cymorth ADY i Rieni a Gofalwyr.

Mae'r pecyn cymorth hwn yn helpu rhieni a gofalwyr i ddeall y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yng Nghymru a'r cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc.

Cyhoeddi ymchwil yn archwilio profiadau bywyd teuluoedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol sy'n cael mynediad at ofal plant, a phrofiadau staff ethnig leiafrifol sy'n gweithio yn y sector gofal plant.

Darparu cyfres o ganllawiau Ysgolion Bro, gan gynnwys astudiaethau achos, i gefnogi rhanddeiliaid allweddol.

# Parhad o'r hyn rydym wedi'i wneud i gefnogi mynediad at ddarpariaeth

Cyhoeddi pedair rîl ddigidol greadigol PGit /EPP "Dydy bod yn rhiant ddim yn hawdd" yn codi ymwybyddiaeth o rianta cadarnhaol a bod cosbi corfforol yn anghyfreithlon yng Nghymru, ynghyd ag amrywiaeth o becynnau rhianta yn rhoi cyngor penodol i oedran.

Lansio cynllun peilot Prosiect Pengwin i brofi offer gwyliadwriaeth, ymyrraeth a hyfforddi newydd ledled Cymru.

Cyhoeddi synthesis o dystiolaeth ar benderfyniadau rhieni ynghylch gofal plant i blant naw mis i ddwy oed.

Mae Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Dirymu a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2026 wedi ei osod yn y Senedd, a disgwylir iddo ddod i rym fis Ebrill 2027.

Cyhoeddi'r adolygiad ôl-weithredu tair blynedd o Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020.

Cynnal adolygiad thematig o'r Rhaglen Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar.




Bydd Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion Diwygiedig ar gyfer ysgolion meithrin a chynradd a gynhelir yn dod i rym ar 31 Hydref. Cyhoeddi'r canllawiau statudol ategol i ganiatáu amser i'w gweithredu.

Cyhoeddi canllaw i rieni a gofalwyr i'r trefniadau asesu ar gyfer babanod a phlant 0 i 3 oed yng Nghymru.

Y cam nesaf ar gyfer y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol fydd parhau i ddatblygu a mireinio dyluniad manwl y cynllun, gyda'r nod o'i weithredu ym mis Ebrill 2027.

Cyhoeddi'r Canllaw i Rieni a Gofalwyr ar Addysg Feithrin mewn 17 o ieithoedd.

Cyhoeddi adroddiad rhaglen llysgenhadon anghenion dysgu ychwanegol lle rhoddir platfform i blant a phobl ifanc ag ADY rannu eu profiadau o'r system ADY i helpu i wella'r cymorth sydd ar gael.

# Yr hyn rydym wedi'i wneud i gefnogi ansawdd y ddarpariaeth

Cyhoeddi a chwblhau ymgynghoriad ar yr Adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir.

Cysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru fel rhan o'u gwaith parhaus ar y cyd ag Estyn i adolygu'r fframwaith arolygu ar gyfer arolygiadau ar y cyd, er mwyn sicrhau bod egwyddorion y Cynllun yn cael eu cynnwys ac y cyfeirir at yr adnoddau.

Recriwtio carfan newydd o Fentoriaid Cymunedol i gefnogi'r 11 cam gweithredu o ran gofal plant a chwarae yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Cyhoeddi Gwerthusiad o'r cynllun prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd: adroddiad interim.

Cyhoeddi ail olygiad o'r pecyn cymorth ar gyfer Creu Diwylliant Gwrth-hiliol mewn Lleoliadau.

Cyhoeddi hyfforddiant trawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a deunyddiau sy'n adnoddau ategol rhestr chwarae ar gyfer ysgolion, gan gynnwys dwy astudiaeth achos ar ddatblygu ysgolion sy'n ystyriol o drawma.

Cysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru fel rhan o'i waith parhaus i adolygu'r fframwaith arolygu, er mwyn sicrhau bod egwyddorion y Cynllun yn cael eu cynnwys a bod cyfeiriad at yr adnoddau.

Cyhoeddi canfyddiadau gwerthusiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o ddulliau gweithredu Ysgolion Bro yng Nghymru.



Cyhoeddi Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru: Trefniadau Asesu ar gyfer Babanod a Phlant Bach 0–3 oed yng Nghymru i gefnogi arsylwadau ac asesu ar draws y sector gofal plant.

Ehangu'r cwrs hyfforddiant peilot "Ymarfer, Sgiliau a Strategaethau sy'n ystyriol o drawma ar gyfer (y rhai sy'n gweithio gyda) plant a phobl ifanc".

Datblygu hyfforddiant cynhwysfawr sy'n ystyriol o drawma ar draws pob un o bedair lefel ymarfer Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma, a lansio cwrs e-ddysgu Hyb ACE Cymru, gan ddarparu gwybodaeth gyffredinol am fod yn ystyriol o drawma i bob aelod o staff.

Cyhoeddodd Plant yng Nghymru ganfyddiadau'r arolwg rhieni 'Sgwrs Fawr' a chynnal weminar y daeth gweithwyr proffesiynol a rhieni ledled Cymru iddi.

Datblygu protocol trosglwyddo safonol ar gyfer gwasanaethau ymwelwyr iechyd a nyrsio mewn ysgolion.

# Yr hyn rydym wedi'i wneud i gefnogi a datblygu'r gweithlu

Darparu cyllid i awdurdodau lleol i gefnogi lleoliadau i gael mynediad at hyfforddiant gorfodol (diogelu a chymorth cyntaf pediatrig) a hyfforddiant arferion da i wella darpariaeth lleoliadau gofal plant mewn meysydd fel ADY.

Cyhoeddi ymgynghoriad ar y safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer cynorthwyo addysgu, addysgu ac arweinyddiaeth.

Parhau i symud ymlaen â'r camau gweithredu a ddatblygwyd o ganlyniad i argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o Warchod Plant gan gynnwys:

- Hyrwyddo gallu gwarchodwyr plant i gynnig Dechrau'n Deg gydag awdurdodau lleol.
- AGC yn sefydlu Grŵp Hyrwyddwyr Gwarchod Plant.
- Datblygu gwybodaeth berthnasol am ddod yn warchodwr plant ar ffurf 'siop un stop'.
- Cynnal arolwg o sgiliau digidol gwarchodwyr plant.

Diweddaru fframwaith Hyfforddiant Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Cymru Gyfan i ymgorffori hyfforddiant a thystiolaeth gyfredol.



Mae cynrychiolwyr chwarae ar Is-grwpiau Plant Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n arwain at roi mwy o ystyriaeth i chwarae mewn cynllunio strategol.

Gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu'r Cynllun Gweithlu Addysg Strategol ar gyfer ysgolion.

Comisiynu ymchwil ar effaith y Dyletswyddau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

Cefnogi'r rhaglen cymwysterau gofal plant iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr gofal plant Lefel 3 a Lefel 5.

Diwygio fframwaith NYTH i gynnwys 'babanod' a 'gofal plant' fel rhanddeiliaid allweddol i gydnabod pwysigrwydd y blynyddoedd cynnar yn y dull system gyfan.

# Parhad o'r hyn rydym wedi'i wneud i gefnogi a datblygu'r gweithlu

Cefnogi'r gwaith o gyhoeddi Yr hyn mae plant yn ei ddweud am chwarae yng Nghymru: 2025 a'r Adroddiad Cyflwr Chwarae.

Trosglwyddo'r cyfrifoldeb am ddatblygu'r Llwybr Dysgu i Gynorthwywyr Addysgu i Dysgu.

Cyhoeddi'r ymgynghoriad Siarad gyda fi – Cam 2 gan gynnwys fersiwn hawdd ei deall a fersiwn addas i blant.

Comisiynu hyfforddiant Ymwybyddiaeth Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i swyddogion Llywodraeth Cymru i gefnogi dull trawslywodraeth, strategol o gefnogi digonolrwydd cyfleoedd chwarae.



Ariannu awdurdodau lleol i gynnig hyfforddiant a chefnogaeth cyn cofrestru ar gyfer gwarchodwyr plant.

Ariannu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gyflogi Swyddog Cymorth i helpu i gynnal niferoedd ar y cyrsiau Cymraeg penodol i ofal plant a gaiff eu cynnig.

Cefnogi a datblygu rôl y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd trwy ein Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd.

Cyhoeddi fideos arferion da NYTH ar waith, gan gynnwys prosiectau blynyddoedd cynnar.

Ariannu Gofal Cymdeithasol Cymru i gyflawni:

- Y rhaglen Llwybrau at Ofal Plant – (roedd 652 wedi cwblhau'r Cyflwyniad i Ofal Plant ar ddiwedd Rhagfyr 2025; roedd 3529 wedi'u cyrraedd drwy'r Cyflwyniad i Ofal Plant i Bobl Ifanc gyda hyfforddiant ar gyfer 15 Llysgennad i gyflwyno'r rhaglen rhwng Mai a Rhagfyr 2025; cofrestrodd 96 o leoliadau i gynnig treialon gwaith ar draws 20 ALl).
- Cynhadledd genedlaethol ar y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn y Gogledd ym mis Medi 2025 (dros 100 yn bresennol) a digwyddiad dysgu wythnos o hyd ym mis Tachwedd 2025 (dros 300 yn bresennol).
- Sesiynau gwybodaeth rheolaidd yn canolbwyntio ar Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan a chymwysterau Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.
- Wythnos o ddigwyddiadau llesiant ar-lein i gefnogi'r gweithlu ym mis Ionawr 2026.
- Sesiynau hyfforddi a datblygu gan gynnwys ysgol reoli (33 yn bresennol), chwarae awyr agored (52 yn bresennol) a phŵer ymlyniad.

Cyhoeddi fframwaith NYTH (iechyd meddwl a llesiant): diweddariad gweithredu 2025.

Ariannu drwy Cwlwm, i Mudiad Meithrin gyflawni'r hyfforddiant Cam wrth Gam.